**Claire Homard**
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Holl Fudd-ddeiliaid/Ymgynghorai

| | |
|---|---|
| Your Ref/Eich Cyf | |
| Our Ref/Ein Cyf | CH/GC |
| Date/Dyddiad | 6th March 2025 |
| Ask for/Gofynner am | School Modernisation Team |
| Direct Dial/Rhif Union | 01352 702188 |

Annwyl Fudd-ddeiliad/Ymgynghorai

**<u>Ad-drefnu Canolfan Enfys dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti o 98 i 128 o 1 Ebrill 2025.</u>**

Ar ddydd Mawrth 18 Chwefror 2025, bu i Gabinet Cyngor Sir y Fflint drafod y cynnig i ad-drefnu Canolfan Enfys o dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti o 98 i 128 o 1 Ebrill 2025.

Ystyriodd y Cabinet y Cynnig ac maent wedi ymateb yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion - Ail Rifyn, 2018. Penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r cynnig.

Wrth benderfynu ar y cynnig, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd yn:

- Caniatáu i Ganolfan Enfys i ddefnyddio arweinyddiaeth, profiad ac arbenigedd Ysgol Pen Coch gan arwain at well canlyniadau i ddysgwyr.
- Gwella'r broses bontio i ddysgwyr o Ganolfan Enfys i Ysgol Pen Coch.
- Gosod Canolfan Enfys yn fwy priodol o fewn darpariaeth ADY Cyngor Sir y Fflint.

Mae'r cynnig wedi ystyried unrhyw faterion cydraddoldeb a nodwyd trwy gwblhau'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

Bydd trefniadau derbyn yn cael eu trin yn unol â phroses Panel Cymedroli ADY Cyngor Sir y Fflint.

Ymdrinnir â chludiant ar gyfer disgyblion drwy gyfeirio at Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol.

Ty Dewi Sant, Ewloe. CH5 3FF
www.flintshire.gov.uk
Ty Dewi Sant, Ewlo. CH5 3FF
www.siryfflint.gov.uk

YN GADARN O BLAID POBL ANABL
POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

O dan adran 54 Deddf 2013 lle mae cynigion wedi cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol, gall y cyrff canlynol o fewn 28 diwrnod gyfeirio’r cynnig i Weinidogion Cymru ar gyfer ystyriaeth;

- Awdurdod Lleol arall y mae’r cynnig yn effeithio arno
- Corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol y mae’r cynnig yn effeithio arni
- Corff Llywodraethu unrhyw ysgol wirfoddol neu ysgolion sefydledig sy’n destun y cynnig
- Ymddiriedolaeth sy’n meddu ar dir ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy’n destun y cynnig
- Sefydliad Addysg Bellach sy’n cael ei effeithio gan y cynnig

Nodwyd na chafwyd unrhyw Wrthwynebiad Statudol gan Fudd-ddeiliaid yn ystod y broses Gwrthwynebu ffurfiol.

Mae Adroddiad Gwrthwynebu ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint trwy’r ddolen ganlynol https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx (pe bai angen copïau caled yn y Gymraeg neu’r Saesneg anfonwch e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk gyda’r cyfeiriad).

Yn dilyn y penderfyniad, mae’r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda theuluoedd, staff a Llywodraethwyr Canolfan Enfys ac Ysgol Pen Coch i sicrhau pontio esmwyth i’r strwythur newydd.

Yn ddiffuant



Claire Homard
**Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid**